# PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL
## 15 CHWEFROR 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Iau, 15 Chwefror 2018

**YN BRESENNOL: Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Haydn Bateman, Bob Connah, Paul Cunningham, Andrew Holgate, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Mike Lowe, Michelle Perfect, Vicky Perfect ac Arnold Woolley

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Marion Bateman (dros Patrick Heesom)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Hilary McGuill a'r Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet dros Reolaeth Corfforaethol ac Asedau.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, David Healey, Mike Peers a Carolyn Thomas, fel arsylwyr

**YN CYFRANNU:** Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gyllid; Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu);

Prif Swyddog (Newid Sefydliadol); a'r Rheolwr Cyllid – Cyfrifeg Technegol – ar gyfer eitem 66 yn y cofnodion
Rheolwr Gwasanaeth, Cymorth Cwsmeriaid – ar gyfer eitem 67 yn y cofnodion
Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol – ar gyfer eitem 68 yn y cofnodion
Rheolwr Cyllid Corfforaethol – ar gyfer eitem 69 yn y cofnodion

**YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

### 64. DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Dim.

### 65. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2018

Cofnod rhif 59 – roedd y Gweithdy Cynhyrchu Incwm, sydd yn bwysig yn natblygiad y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, wedi ei drefnu ar gyfer 18 Ebrill.

Yn dilyn sylwadau Cynghorydd Jones, bydd diweddariad ar yr adolygiad o'r cronfeydd wrth gefn yn cael ei ddarparu fel rhan o'r eitem ar Fonitro'r Gyllideb Refeniw. Dywedodd Cynghorydd Jones ei fod yn deall y byddai'r Pwyllgor yn cael diweddariad cynnar er mwyn eu galluogi i wneud argymhelliad i'r Cyngor Sir cyn cymeradwyo'r gyllideb ar 20 Chwefror. Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd

ynghylch cadernid yr adolygiad er mwyn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r Aelodau i'w galluogi i wneud penderfyniad ar y cynigion parthed y gyllideb.

Cofnod rhif 60 – cyn y cyfarfod, roedd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd wedi dosbarthu'r ymatebion i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar rychwant rheolaeth rheolwyr a chysylltiadau rhwng perfformiad gweithwyr a chynyddiadau blynyddol. Ar yr ail bwynt, dywedodd y Prif Weithredwr fod 16 Cyngor yng Nghymru wedi ateb yr ymholiad ac wedi cadarnhau nad oeddent yn gweithredu cynllun o'r fath.

Cofnod rhif 61 – Diolchodd Cynghorydd Johnson i'r swyddogion am y wybodaeth ar ffioedd Rheoli Pla.

**PENDERFYNWYD:**

Y dylid cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.

## 66. DATBLYGIAD RHAGLEN GYFALAF 2018/19-20/21

Cyflwynodd y Prif Weithredwr (Newid Sefydliadol) adroddiad ar ddatblygiad Rhaglen Gyfalaf 2018/19-2020/21. Roedd hyn yn cysylltu â'r Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Rheoli Asedau a oedd i'w diweddaru yn ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn cefnogi blaenoriaethau cyfredol y Cyngor a blaenoriaethau mwy hirdymor sy'n dod i'r amlwg ac er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i Godau Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA).

Darparodd y Rheolwr Cyllid – Cyfrifeg Technegol, eglurhad ar yr amrywiol dablau yn yr adroddiad yn dangos y cynlluniau dynodedig wedi'u rhannu'n dair adran – Statudol/Rheolaethol, Asedau Argadwedig a Buddsoddiad. Roedd cynnydd o ran mynd i'r afael â'r diffyg amcangyfrifedig o £3.187m yng nghyllideb 2017/18 -19/20 wedi ffurfio rhan o'r adroddiadau monitro cyllideb rheolaidd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ac roedd cyflawniad y derbyniadau cyfalaf a ragwelwyd wedi helpu i noddi'n llawn y rhaglen a gymeradwywyd ar gyfer 2017/18-20/21. Mae hyn yn dangos effeithiolrwydd polisi darbodus y Cyngor o beidio â defnyddio derbynebau cyfalaf oni bai eu bod wedi eu gwireddu.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod uchelgeisiau'r Cyngor yn gorbwyso'r cyllid sydd ar gael i gynnal y rhaglen dros y tair blynedd nesaf a dywedwyd y byddai cyllid Llywodraeth Cymru yn lleihau o £0.118m ar gyfer 2018/19. Byddai'n rhaid ariannu'r diffyg cyffredinol o £8.216m ar gyfer ariannu cynlluniau arfaethedig yn ystod y cyfnod drwy gyflawni derbyniadau cyfalaf y dyfodol (a amcangyfrifir ar hyn o bryd i fod tua £8.3) neu opsiynau eraill megis grantiau amgen, benthyca darbodus neu gyflwyno cynlluniau fesul cam.

Cyfeiriodd Cynghorydd Shotton at amrywiol gynlluniau yn Rhaglen Gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai sy'n cyflenwi Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor, a'r defnydd o asedau cyfalaf yn y Rhaglen Tai Cymdeithasol ac Adfywio. Amlygodd nifer o gynlluniau ychwanegol yn y Rhaglen Gyfalaf megis uwchraddio toiledau ysgolion, ymestyn/ailfodelu yn yr Hob a Bagillt ac adsefydlu cyfleuster gwasanaethau dydd pobl ag anableddau dysgu Glanrafon.

Diolchodd hefyd i'w gydweithiwr ar GLlLC, Cynghorydd Andrew Morgan (Arweinydd Cynon Taf) am ei ran yn y trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid i gefnogi gwelliannau i'r priffyrdd lleol, gan gynnwys siâr o £1.427m ar gyfer Sir y Fflint

Holodd Cynghorydd Cunningham ynglŷn â'r dyraniad a gymeradwywyd ar gyfer yr archwiliad o Bont Sir y Fflint a dywedwyd wrtho y byddai'n rhaid dadansoddi'r canlyniadau. Tra bo'r Cyngor ar hyn o bryd yn atebol am gost unrhyw waith adferol sy'n dod i'r amlwg yn yr archwiliad, gallai'r cyfrifoldeb am y ffordd dros y bont newid unwaith y bydd yr A494 yn dod yn 'ffordd goch' oherwydd y byddai'n dod yn rhan o gefnffordd ac felly'n gyfrifoldeb LlC. Yn dilyn trafodaethau pellach, cynigiodd Cynghorydd Marion Bateman y dylai'r Pwyllgor groesawu trafodaethau cynnar gyda LlC am y cydgyfrifoldeb dros unrhyw gostau sy'n deillio o'r archwiliad, yng ngoleuni maint posibl y risg hwn. Dywedwyd y byddai canlyniad yr archwiliad yn cael ei adrodd i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a hefyd, os bydd yn effeithio ar y Rhaglen Gyfalaf, i'r Pwyllgor hwn.

Dywedodd Cynghorydd Jones ei bod yn bwysig deall effaith gwariant cyfalaf ar gynlluniau newydd yn y cyfrif refeniw. Dywedodd y Rheolwr Cyllid ei bod yn anodd rhoi cyfanswm gan fod pob cynllun yn caniatáu ystyriaeth o'r canlyniadau refeniw, fodd bynnag mae'n debygol mai ar elfen buddsoddiad y rhaglen y bydd y prif bwysau ar refeniw. Eglurodd nad oedd y ddau gynllun a ychwanegwyd at y rhaglen yn ystod 2018/19 wedi cael unrhyw effaith ar y gyllideb refeniw.

Rhoddodd y Prif Weithredwr eglurhad ar y ddau fath o bwysau ar refeniw y mae rhai cynlluniau'n eu hachosi, a siaradodd am agwedd 'risg is' y Cyngor tuag at fenthyca. Gallai effaith posibl cynlluniau cyfalaf newydd ar refeniw ddigwydd o ganlyniad i gostau ariannol benthyca ychwanegol a/neu gostau ychwanegol rhedeg ased newydd megis staffio, ynni a chynnal a chadw ayyb.

Mewn perthynas â'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, gofynnodd Cynghorydd Johnson a ellid gofyn i LlC am gyllid ychwanegol i atgyweirio ffyrdd gwledig a ddifrodwyd gan draffig a ddargyfeiriwyd o ganlyniad i waith ar yr A55. Cytunodd y Prif Weithredwr a Chynghorydd Shotton y byddai hwn yn gais teg i'w wneud.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Gynghorydd Woolley ar ailddatblygiad Theatr Clwyd, dywedodd y Prif Weithredwr y gofynnwyd am sicrwydd gan LlC a Chyngor Celfyddydau Cymru y byddai'r prosiect yn cael ei gydnabod a'i ariannu fel prosiect o arwyddocâd cenedlaethol cyn y gallai'r Cyngor ymrwymo i fuddsoddi ymhellach.

Rhoddwyd eglurhad i Gynghorydd Haydn Bateman ar y dyraniad ar gyfer Prosiect Triniaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru yn unol â'r cydgytundeb a wnaed ar gyfer cyfrifoldebau a rennir.

Yn dilyn ei sylwadau cynharach, cynigiodd Cynghorydd Jones y dylai'r Pwyllgor dderbyn adroddiad yn amlinellu effeithiau'r gwariant cyfalaf (cynlluniau newydd i'w cymeradwyo) ac yn manylu ynghylch yr effeithiau ar y cyfrif refeniw, gan gynnwys cost benthyca, costau refeniw gweithredol a manteision gweithredol. Dywedodd Cynghorydd Shotton, yn ogystal â chostau ychwanegol, y

dylid hefyd nodi arbedion er mwyn rhoi darlun cyflawn. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno ym mis Mawrth neu fis Ebrill.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r dyraniadau a'r cynlluniau yn Nhabl 4 (paragraff 1.06.1) ar gyfer adrannau Statudol/Rheolaethol ac Asedau Argadwedig Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2018/19 - 2020/21;

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynlluniau a nodwyd yn Nhabl 5 (paragraff 1.07.1) ar gyfer adran Buddsoddiad Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2018/19 - 2020/21;

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi bod y diffyg yng nghynlluniau ariannu 2019/20 a 2020/21 (paragraff 1.08) ar y pwynt hwn yn y broses gymeradwyo yn hyblyg. Bydd opsiynau sy'n cynnwys cyfuniad o dderbyniadau cyfalaf y dyfodol, grantiau amgen (os ar gael) benthyca darbodus neu gyflwyno cynlluniau fesul cam dros nifer o flynyddoedd yn cael eu hystyried yn ystod 2018/19 a'u cynnwys yn adroddiadau rhaglenni cyfalaf y dyfodol;

(d) Bod y Pwyllgor yn nodi datblygiad pellach ac adfywiad Strategaeth Gyfalaf a Chynllun Rheoli Asedau ar gyfer y dyfodol; a

(e) Bod y Pwyllgor yn rhoi gwybod i'r Cabinet:

 (i) ei fod wedi gwneud cais am adroddiad sy'n amlinellu effaith gwariant cyfalaf (cynlluniau newydd i'w cymeradwyo) ac yn manylu ynghylch yr effeithiau ar y cyfrif refeniw, gan gynnwys cost benthyca, costau refeniw gweithredol a manteision gweithredol, ar gyfer cyfarfod mis Mawrth os yn bosibl, neu fel arall fis Ebrill;

 (ii) bod rhai pryderon ynglŷn â chost unrhyw waith adferol a fydd yn angenrheidiol o ganlyniad i'r archwiliad o Bont Sir y Fflint. Croesewir trafodaethau cynnar gyda LlC ar rannu cyfrifoldeb dros gostau, a hynny cyn unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd o ganlyniad i sefydlu'r ffordd goch. Canlyniadau'r archwiliad i'w hadrodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd ac os bydd yn effeithio ar y Rhaglen Gyfalaf, i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol hefyd; a

 (iii) gwahodd y Cabinet i ystyried gwneud cynrychioliadau i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r draul ar ffyrdd sir y Fflint o ganlyniad i gael eu defnyddio fel ffyrdd dargyfeiriol yn ystod gwaith ar yr A55.

## 67. STRATEGAETH DDIGIDOL - Y CWSMER DIGIDOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr (Llywodraethu) adroddiad ar gynnydd y dull arfaethedig o foderneiddio a gwella darpariaeth gwasanaethau cwsmeriaid y Cyngor drwy wneud y defnydd gorau a mwyaf priodol o dechnoleg ddigidol.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth, Cymorth Cwsmeriaid, gyflwyniad ar y meysydd canlynol:

- Manteision ffocws ar y 'cwsmer digidol'
- Rhagolwg o'n Porth Cwsmeriaid
- Datblygu ein porth talu
- Datblygu Sgwrsio Byw
- Penderfyniadau Allweddol – yn gynnar yn 2018
- Dulliau o ymdrin ag effeithlonrwydd
- Adnoddau
- Cynllun Gweithredu Amlinellol

Gwelliannau i'r gwasanaeth oedd y rheswm pennaf dros y prosiect a byddai'r buddsoddiad unwaith yn unig o £0.550m yn cael ei dalu'n ôl o arbedion y dyfodol. .

Mewn ymateb i nifer o gwestiynau gan y Cadeirydd, cyfeiriodd y Prif Swyddog at y diagram yn y cyflwyniad sy'n dangos fod angen buddsoddiad mewn rhai systemau swyddfa gefn er mwyn cefnogi integreiddiad llawn. Rhoddodd eglurhad ar agweddau o'r porth cwsmeriaid a fyddai'n cynnwys dolen i gyfeiriad e-bost Aelod lleol y cwsmer.

Wrth groesawu'r gwelliannau digidol, gofynnodd Cynghorydd Cunningham ynglŷn ag unrhyw effaith ar amseroedd ymateb ar gyfer cwsmeriaid y mae'n well ganddynt ddefnyddio'r dulliau cysylltu mwy traddodiadol. Cytunodd Rheolwr y Gwasanaeth i ddosbarthu'r wybodaeth am safonau ymateb y gwasanaeth cwsmeriaid.

Cydnabu'r Prif Swyddog sylwadau'r Cynghorydd Johnson ar boblogrwydd defnyddio gwasanaethau ar-lein drwy ffonau symudol, gan ddweud nad oedd cyfleuster i ddadansoddi defnydd yn ôl ardal, ond bod y wefan wedi'i llunio er mwyn hwyluso'i defnydd ar ffonau symudol, tabledi a chyfrifiaduron personol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Jones, eglurodd y Prif Weithredwr mai manteision ar gyfer cwsmeriaid oedd y prif ffocws ar y cam cynnar hwn ac y byddai gweithredu fesul cam yn caniatáu dadansoddiad manwl o'r arbedion. Rhoddodd y Prif Swyddog eglurhad ar y ffigwr buddsoddi a ddyfynnwyd a sut y bydd arbedion effeithlonrwydd yn cael eu holrhain yn fanwl wrth i'r prosiect esblygu.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at arbedion yr oedd modelau a weithredir gan gynghorau eraill wedi eu cynhyrchu. Dywedodd Cynghorydd Jones fod y Pwyllgor yn croesawu enghreifftiau o fodelau arfer gorau a weithredir gan gynghorau tebyg o ran maint.

Rhoddodd Cynghorydd Peers, a oedd yn bresennol yn y galeri cyhoeddus, enghraifft o achos pan gaewyd mater nad oedd wedi'i ddatrys ac awgrymodd gyfleuster i atodi llun o ddigwyddiad/ardal. Eglurodd y swyddogion y byddai'r dechnoleg well yn lleihau'r angen am 'gyfryngwr dynol' sy'n gallu arwain at y fath gamgymeriadau. Fel y nodwyd yn y cynllun gweithredu, byddai ailfodelu'r gwasanaeth yn darparu swyddog dynodedig i gefnogi datblygiad sgwrsio byw.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn croesawu'r dull arfaethedig o weithredu'r Strategaeth Ddigidol a'r Strategaeth Cwsmeriaid drwy roi blaenoriaeth i, a ffocws ar wella gwasanaethau ar gyfer 'Cwsmeriaid Digidol' fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad;

(b) Bod y Pwyllgor yn croesawu lansiad arfaethedig y Cyfrif Cwsmeriaid ym mis Mawrth eleni gan alluogi cwsmeriaid i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn a rhoi adborth cychwynnol ar y gwasanaeth fel y gellir ei ddatblygu dros amser;

(c) Bodd manylion y safonau Gwasanaethau Cwsmeriaid a'r ymateb i'r safonau yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor; a

(d) Bod adroddiad ar 'arfer gorau' digidol yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol.

**68. ADRODDIAD GWYBODAETH AM Y GWEITHLU - CHWARTER 3 2017/18**

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol, yr adroddiad gwybodaeth am y gweithlu ar gyfer trydydd chwarter 2017/18.

Roedd y newidiadau arwyddocaol i niferoedd a throsiant staff wedi digwydd yn bennaf o ganlyniad i drosglwyddo gweithwyr i'r gwasanaeth Arlwyo a Glanhau NEWydd ac i wasanaeth Hamdden a Llyfrgelloedd Aura. Mas presenoldeb hyd yma yn 2017/18 yn dangos gwelliant o gymharu â'r un cyfnod yn 2016/17 ac roedd y ffigyrau ar gyfer staff ysgolion a staff eraill yn debyg. Mae gwaith a wnaed ers y cyfarfod blaenorol wedi arwain at welliannau arwyddocaol mewn nifer o feysydd gan gynnwys Newid Sefydliadol 2, Cynllunio a'r Amgylchedd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddai diweddariad manwl yn cael ei roi i'r cyfarfod ym mis Mai. Er bod gwariant cronnus ar weithwyr asiantaeth wedi mynd dros y targed roedd gostyngiad o 45% o gymharu â'r un cyfnod yn 2016/17.

Gofynnodd Cynghorydd Jones am eglurhad ar y ffigyrau cymharol ar wariant ar weithwyr asiantaeth a throsiant heb fod mewn ysgolion o'r flwyddyn flaenorol a chytunodd yr Uwch Reolwr y byddai'n darparu ymateb. Nodwyd y gellid ymgyfnewid y ffigyrau dadansoddi rhyw ar gyfer gweithwyr heb fod yn rhai ysgolion ac y dylid diweddaru'r graff niferoedd staff a staff cyfwerth ag amser llawn i ddangos y cyfnod llawn.

O ran monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y gweithlu, cynigiodd Cynghorydd Johnson y dylid cynnwys gwybodaeth am anableddau yn adroddiadau'r dyfodol. Mewn ymateb i sylwadau, eglurodd yr Uwch Reolwr fod gwerthusiadau'n rhoi cyfle i hyrwyddo datblygiad gyrfa cadarnhaol a chytunodd i baratoi adroddiad ar enghreifftiau o waith.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r Adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu ar gyfer Chwarter tri 2017/18 hyd 31 Rhagfyr 2017;

(b) Bod yr Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol yn adolygu'r ffigyrau ar gyfer adroddiadau'r dyfodol, a

(c) Bod yr adroddiad nesaf yn cynnwys ystadegau perthnasol i anabledd.

## 69. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW 2017/18 (MIS 9) A MONITRO'R RHAGLEN GYFALAF (MIS 9)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid adroddiad ar y sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer 2017/8 fel yr oedd ym mis 9 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT), a'r Rhaglen Gyfalaf, cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet.

Monitro'r Gyllideb Refeniw

O ran Cronfa'r Cyngor, y rhagolygon o safbwynt y sefyllfa net yn y flwyddyn oedd y byddai'n £0.908m yn uwch na'r gyllideb, sef cynnydd o £0.062m o Fis 8. Roedd y rhesymau dros yr amrywiadau rhagamcanol wedi eu nodi yn yr adroddiad. Rhagamcanwyd y byddai 94% o'r arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd yn y flwyddyn yn cael eu gwireddu.

O ran olrhain risgiau yn y flwyddyn a materion sy'n dod i'r amlwg roedd gwaith i asesu'r effaith ar gyllideb 2018/19 wedi ei adrodd i'r Cabinet ym mis Ionawr ac wedi ei gynnwys mewn cynigion cyllidol i'w cyflwyno i'r Cyngor Sir ar 20 Chwefror. Tynnwyd sylw at y risg i gyllideb cynnal a chadw'r gaeaf yn dilyn y tywydd garw diweddar

Ar y CRT, rhagamcanwyd y byddai'r gwariant yn y flwyddyn £0.035m yn is na'r gyllideb, gan adael balans diwedd blwyddyn o £1.081m (yn uwch na'r lefel isaf a argymhellir).

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol ddiweddariad ar yr adolygiad o gronfeydd lle'r oedd gwaith yn tynnu at y terfyn. Dywedodd fod yr holl feysydd wedi'u hadolygu – nid dim ond y rhai hynny yr oedd y Pwyllgor wedi'u hadnabod –a bod cymhlethdodau o ran olrhain er mwyn sefydlu telerau a deall yr ymrwymiadau o ran proffiliau gwariant. Rhoddodd grynodeb o statws a phwrpas pedwar maes y cronfeydd (sylfaenol, wrth gefn, wedi'u clustnodi a heb eu clustnodi) ac roedd yn hyderus fod lefel ddigonol o gronfeydd defnyddiadwy i gefnogi sefyllfa'r gyllideb yn 2018/19.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai canlyniad yr adolygiad – a oedd yn destun manwl gywirdeb a her – yn cael ei adrodd i'r Cabinet. Yr argymhelliad fyddai cefnogi rhyddhad darbodus rhai cronfeydd, gan gadw eraill i liniaru risg yn y dyfodol. Byddai'r adroddiad i'r Cabinet a'r Cyngor Sir yn dweud mai'r defnydd o gronfeydd a chynnydd yn Nhreth y Cyngor yw'r unig opsiynau ar ôl i fantoli'r gyllideb. Roedd yr her i gyllid ysgolion i dalu'n rhannol am bwysau cyflogau a chostau chwyddiant yn cael ei ystyried yn faes i risg sydd yn flaenoriaeth.

Dywedodd Cynghorydd Shotton ei bod yn deg herio cronfeydd wedi'u clustnodi nad ydynt wedi'u defnyddio ac y dylid ffurfio barn gytbwys ar lefel y risg cysylltiedig â phob cronfa

Croesawodd Cynghorydd Jones y gwaith ar yr adolygiad ac roedd yn derbyn nad oedd herio cronfeydd heb ei risg. Roedd yn teimlo fod materion eraill yn y gyllideb yn bwysicach ac y dylai'r Pwyllgor asesu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a oedd cronfeydd wedi'u clustnodi yn angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol.

Mewn ymateb i gwestiynau, rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar gynnydd y Cytundeb Statws Sengl a'r gronfa ddal, lle'r oedd gwaith bron wedi'i gwblhau.

Gofynnodd y Cynghorydd Peers, a oedd yn bresennol yn y galeri cyhoeddus, ynghylch y posibilrwydd o adolygu Cam 1 y broses er mwyn gweld a ellid dynodi unrhyw beth arall. Dywedodd y Prif Weithredwr fod camau 1 a 2 yn awr yn gyflawn ac wedi'u cau, a rhoddodd grynodeb o'r ymdriniaeth gam wrth gam yr oedd yr Aelodau yn gyffredinol yn ei chefnogi. Eglurodd fod cynllunio a gweithredu cynnar mewn perthynas â chynigion Cam 1 wedi bod yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i'r broses symud yn ei blaen ac i wireddu lefel uchel o arbedion effeithlonrwydd yn erbyn y targed yn y flwyddyn.

<u>Rhaglen Gyfalaf</u>

Roedd crynodeb o newidiadau i'r rhaglen yn ystod 2017/18 yn nodi cyfanswm cyllideb diwygiedig o £59.422m. Yn ystod y chwarter blaenorol, bu cynnydd net o £1.245m. Dros y chwarter, argymhellwyd £1.289m o addasiadau i'w dwyn ymlaen i 2018/19 gan roi cyfanswm o £4.116m.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad Monitro Cyllideb 2017/19 ac yn cadarnhau ar yr achlysur hwn mai'r mater y mae'n dymuno ei ddwyn i sylw'r Cabinet yw'r angen i ystyried rhyddhau cronfeydd wedi'u clustnodi a allent gynnal Cyllideb Refeniw 2018/19;

Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad Mis 9 Rhaglen Gyfalaf 2017/18 ac yn cadarnhau ar yr achlysur hwn fod y materion y mae'n dymuno eu dwyn i sylw'r Cabinet wedi eu dynodi yn yr adroddiad 'Datblygiad y Rhaglen Gyfalaf' gynharach.

## 70. <u>RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL</u>

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol er ystyriaeth a dywedodd y byddai'r materion a ddynodir yn ystod y cyfarfod yn cael eu rhestru.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i cyflwynwyd, yn cael ei chymeradwyo gyda newidiadau;

- Adroddiad yn amlinellu effaith gwariant cyfalaf (cynlluniau newydd i'w cymeradwyo) ac yn rhoi manylion ynghylch yr effeithiau ar y gyllideb

refeniw, gan gynnwys costau benthyg, costau refeniw gweithredol a manteision gweithredol, ar gyfer cyfarfod mis Mawrth os yn bosibl.

- Adroddiad yn edrych ar enghreifftiau o arfer da mewn darpariaeth ddigidol.

- Bod Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd, mewn perthynas â'r Cadeirydd, yn cael eu hawdurdodi i amrywio'r Cynllun Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, pe bai hynny'n angenrheidiol.

**71. PRESENOLDEB AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.45pm)

**..............................**
**Cadeirydd**